www.gov.uk/cma

# Cynllun Blynyddol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) 2025/26

**Hyrwyddo Cystadleuaeth a Diogelu Defnyddwyr i Sbarduno Twf, Cyfle, a Ffyniant i'r DU**

**27 Mawrth 2025**

# Cynllun Blynyddol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) 2025/26

**Hyrwyddo Cystadleuaeth a Diogelu Defnyddwyr i Sbarduno Twf, Cyfle, a Ffyniant i'r DU**

Cyflwynwyd i'r Senedd, Senedd yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â pharagraff 13(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (fel y'i diwygiwyd gan adran 40(3) Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020)

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn generalenquiries@cma.gov.uk

ISBN 978-1-5286-5570-5

E03325495    03/25

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 40% o gynnwys ffibr wedi’i ailgylchu o leiaf

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhageiriau | 5 |
| 2. | Gwybodaeth am y CMA | 9 |
| 3. | Cefnogi Twf, Cyfle a Ffyniant i'r DU | 13 |
| 4. | Esblygu'r ffordd rydym yn gweithio | 26 |
| 5. | Blaenoriaethu a Gweithrediadau | 29 |
| 6. | Sut mae'r CMA yn gweithio gyda rheoleiddwyr a phartneriaid eraill | 30 |

# 1. Rhageiriau

**Adroddiad y Cadeirydd Dros Dro y CMA**




Mae wedi bod yn anrhydedd ymgymryd â rôl Cadeirydd Dros Dro y CMA. Mae gennyf nifer o fyfyrdodau cynnar, a llawer o optimistiaeth am y flwyddyn i ddod.

Yn gyntaf, rwy'n credu bod y genhadaeth twf fel y'i nodir gan y llywodraeth yn hanfodol i'r DU – er mwyn i ni allu buddsoddi yn y gwasanaethau cyhoeddus, y seilwaith a'r arloesedd a fydd yn dod â ffyniant i bawb. Rydw i wedi gweld yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn herio ein hunain fel sefydliad o ran sut gallwn ni gyfrannu at y nod hwn. Ac mae hynny'n bwysig, oherwydd gall sylfeini'r hyn y mae'r CMA yn ei wneud – cystadleuaeth gref a diogelu defnyddwyr – wneud gwahaniaeth mawr i'r gwaith o gyflawni hynny. Yn wir, mae cylch gwaith y CMA yn ein rhoi mewn sefyllfa unigryw i edrych yn eang ar draws yr economi a defnyddio ein pwerau i agor cyfleoedd a mynd i'r afael â rhwystrau sy'n cyfyngu ar gynhyrchiant, arloesedd neu fuddsoddiad.

Yn ail, mae fy mhrofiad dros fwy na dau ddegawd mewn sefydliadau sy'n delio â defnyddwyr bob amser wedi golygu, er mwyn perfformio'n dda, bod angen i chi ddeall a bod yn wirioneddol ymatebol i adborth. Gan weithredu fel pont rhwng y CMA a'n rhanddeiliaid (boed hynny'n fusnesau, buddsoddwyr, neu'n hyrwyddwyr defnyddwyr), rwy'n gobeithio atgyfnerthu'r gwaith sydd eisoes yn gadarnhaol y mae Sarah wedi bod yn ei arwain i sicrhau bod y CMA yn ymgysylltu gyda drws agored a meddwl agored. Rwyf wedi bod yn glir bod angen i fusnesau ymdrin â'r ymgysylltu hwnnw'n synhwyrol, yn ddidwyll; a byddwn yn parhau i ofyn 'beth sy'n gweithio i chi, beth sy'n mynd i roi'r hyder i chi fuddsoddi yn y DU?'

Oherwydd rwy'n credu bod gennym gyfle go iawn nawr i feithrin yr hyder hwnnw ymysg cwmnïau a buddsoddwyr – domestig a rhyngwladol – bod y DU yn lle gwych i wneud busnes. Wrth wneud hynny, dylai ein 'seren y gogledd' bob amser fod yn amgylchedd rheoleiddio sy'n annog y lefel uchaf bosibl o fuddsoddiad gan fusnesau, yn amodol ar barchu pwysigrwydd absoliwt cystadleuaeth iach a diogelu defnyddwyr yn gadarn.

Gan fyfyrio ar y misoedd diwethaf hyn, yn ogystal ag adborth rhanddeiliaid i'r Cynllun Blynyddol hwn ac yn fwy cyffredinol, rwy'n credu ein bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y cyfle hwn. Mae'r CMA wedi bod yn sefydliad hynod broffesiynol – trylwyr a thrwyadl, yn gweithredu gydag egwyddorion a gwerthoedd clir ond hefyd yn agored iawn i adborth am ble a sut y gallwn wella. Mae cyfoeth o dalent yma, yn ogystal ag arweinyddiaeth hynod fedrus a Bwrdd ymroddedig a chefnogol.

Yn sicr, mae gwaith i'w wneud, yn gyflym, i wneud yn siŵr bod y profiad yn wirioneddol wahanol i'n rhanddeiliaid ar draws nifer o feysydd craidd rydyn ni wedi clywed sy'n wirioneddol bwysig. Mae Sarah a minnau yn gytûn ynghylch y newidiadau ystyrlon sydd eu hangen er mwyn i'r CMA ddod yn fwy effeithlon, i ddyfnhau ein harbenigedd, ac i barhau i gryfhau ein hymgysylltiad. Rwy'n hyderus bod yr arweinyddiaeth a'r momentwm yno i fwrw ymlaen â'r rhaglen hon o newidiadau; ac mae ein cyfeiriad yn cyd-fynd yn agos â'r Cyfeiriad pendant sydd gennym yn awr gan y llywodraeth.

Y Cynllun Blynyddol hwn yw'r trydydd mewn cylch strategaeth tair blynedd a ddechreuodd yn 2023. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn dechrau cylch newydd, gyda rhagor o fanylion i ddod ar hynny cyn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026/27. Yn y cyfamser, bydd y CMA yn bwrw ymlaen â'r gwaith a'r ymgysylltu gwerthfawr rydyn ni'n ei wneud o ddydd i ddydd, gan helpu i sbarduno'r buddsoddiad sydd ei angen ar y DU i dyfu, gan feithrin a chynnal hyder y rheini rydyn ni'n eu gwasanaethu.

**Rhagair y Prif Weithredwr**



**Sarah Cardell**
Prif Weithredwr

Mae trefn cystadleuaeth gadarn ac annibynnol yn hyrwyddo marchnadoedd deinamig, yn cefnogi cynhyrchiant, arloesedd a buddsoddiad, ac yn diogelu buddiannau defnyddwyr – gan ddarparu mwy o ddewis, ansawdd gwell, prisiau is. Dyma hanfodion rôl y CMA ac maent yr un mor berthnasol a phwysig i'r DU heddiw ag y maent erioed wedi bod, fel yr atgyfnerthwyd gan yr adborth eang gan randdeiliaid a gawsom i'n hymgynghoriad ar y Cynllun Blynyddol hwn.

Er nad yw'r hanfodion hyn wedi newid, mae'r dirwedd allanol y mae'r CMA yn gweithredu ynddi wedi newid yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae gennym lywodraeth newydd, a'i phrif genhadaeth yw twf economaidd, sy'n seiliedig ar lefelau buddsoddi uwch. Rhaid i hyder busnesau, ac apêl y DU fel cyrchfan ar gyfer cyfalaf byd-eang, chwarae rhan ganolog yn llwyddiant y genhadaeth honno – yn enwedig mewn amgylchedd geowleidyddol cythryblus. Mae gennym hefyd ddeddfwriaeth newydd sy'n cael ei deddfu gan y Senedd, gyda'r potensial i ryddhau cyfleoedd enfawr mewn marchnadoedd digidol a newid sylweddol mewn mesurau diogelu defnyddwyr sy'n fwy uniongyrchol ac effeithiol.

Gan adlewyrchu'r newidiadau hyn, bydd y CMA yn cael rôl strategol newydd gan y llywodraeth, gan roi eglurder ynghylch yr hyn rydym yn ei flaenoriaethu a sut rydym yn mynd ati i wneud ein gwaith. Mae'r Cyfeiriad drafft yn atgyfnerthu pwysigrwydd cyfundrefn gref ac annibynnol ar gyfer diogelu defnyddwyr a chystadleuaeth, gan osod hyn yn ganolog yng nghyd-destun y genhadaeth twf.

Felly, er bod diben y CMA yn aros yn gyson, mae'n rhaid i'r gwaith rydym yn ei wneud ac, yn hollbwysig, y ffordd rydym yn mynd o'i chwmpas hi, adlewyrchu'r amgylchedd hwn sy'n newid. Rhaid iddo hefyd ennyn hyder y rhai rydym yn eu gwasanaethu. Mae hynny'n cynnwys busnesau a buddsoddwyr, y mae'n rhaid iddynt fod yn hyderus y byddant yn cystadlu mewn amgylchedd teg ac mewn amgylchedd rheoleiddio sy'n ffafriol i dwf. Ac mae'n cynnwys defnyddwyr yn ymgysylltu â marchnadoedd ar draws yr economi, y mae'n rhaid iddynt deimlo'n hyderus bod y CMA yn sefyll dros eu buddiannau.

Beth mae hyn i gyd yn ei olygu ar gyfer y flwyddyn i ddod?

Gan ddechrau gyda'r hanfodion, rydyn ni'n gwybod bod cystadleuaeth yn gweithredu fel sbardun ar gyfer cynhyrchiant, arloesedd a thwf. Gan adlewyrchu'r Cyfeiriad drafft, byddwn yn defnyddio ein pwerau i wneud i'r peiriant hwnnw weithio'n galetach i'r DU – gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gwmnïau o bob siâp a maint, a'u buddsoddwyr, dyfu a llwyddo yma. Byddwn yn canolbwyntio arbenigedd ac adnoddau ar sectorau strategol bwysig yn Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU; ac ar alluogwyr traws-economi (fel mabwysiadu a chaffael technoleg) sy'n cael effaith luosog ar dwf. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried lle gall polisi cystadleuaeth helpu, a lle gall addasu – er enghraifft er mwyn galluogi cydweithio sy'n sbarduno arloesedd.

Rydym hefyd yn gwybod bod diogelu defnyddwyr yn effeithiol yn rhoi'r ymddiriedaeth a'r hyder i bobl fod yn gyfranogwyr gweithredol mewn marchnadoedd, gan sbarduno gwariant ar draws yr economi. Ar yr un pryd, gall busnesau deimlo'n hyderus bod eu cystadleuwyr yn chwarae yn ôl yr un rheolau ac na allant gael mantais drwy dorri'r gyfraith. Unwaith eto, gan adlewyrchu'r Cyfeiriad drafft, byddwn yn mynd i'r afael ag ymddygiad annheg lleiafrif o fusnesau sy'n gwanhau hyder defnyddwyr ac yn llesteirio twf. Gan ganolbwyntio'n glir ar ymddygiad sy'n amlwg yn anghyfreithlon sy'n arwain at niwed amlwg, byddwn yn helpu i roi arian yn ôl ym mhocedi pobl ac yn diogelu'r amgylchedd teg ar gyfer busnesau sy'n delio'n deg.

Er ein bod yn cadw'n driw i'r hanfodion hyn, rhaid i ni hefyd herio ein hunain i sicrhau bod y gyfundrefn cystadleuaeth yn cefnogi cystadleurwydd a buddsoddiad byd-eang y DU. Nid yw hynny'n golygu bod yn llai effeithiol o ran y canlyniadau rydym yn eu darparu i ddefnyddwyr yn y DU. Ond mae'n gofyn am rai newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae'r CMA yn gweithio, a sut rydym yn ymgysylltu â busnesau a buddsoddwyr. Gan ystyried y Cyfeiriad drafft ac adborth helaeth dros y 6 mis diwethaf, rydym yn bwrw ymlaen â rhaglen o newidiadau ystyrlon sy'n seiliedig ar bedair egwyddor allweddol (y 4P), sef *cyflymder, rhagweladwyedd, cymesuredd a phroses* (sef ymgysylltu'n uniongyrchol â busnes).

Ym mis Tachwedd, fe wnes i ymrwymo i weithredu'r 4P hyn ar draws swyddogaethau'r CMA, gan ddechrau gyda rheoli uno (lle cawsom yr adborth mwyaf beirniadol) ond gan symud ymlaen yn gyflym i feysydd eraill o waith y CMA. Ym mis Chwefror, fe wnaethom gyhoeddi pecyn o ddiwygiadau cyflym a sylweddol i'r gyfundrefn uno i sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir cyn gynted â phosibl, gan leihau'r baich ar fusnesau. Ers hynny, rydym wedi lansio'r adolygiad o'n dull gweithredu ar gyfer atebion uno; ac rydym wedi cyhoeddi Siarter Uno, sy'n nodi'r hyn y dylai busnesau ei ddisgwyl o'n proses adolygu uno.

Rydym yn symud yn gyflym i gymhwyso'r 4P a'r Cyfeiriad Strategol newydd i feysydd eraill o'n gwaith. Ein blaenoriaeth nesaf fu swyddogaethau digidol a swyddogaethau defnyddwyr newydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar draws y

ddau faes, yn enwedig o ran rhoi sicrwydd i fusnesau ynghylch cymesuredd a natur ragweladwy ein dull gweithredu o'r cychwyn cyntaf. Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion am hyn ar gyfer y ddau faes gwaith ym mis Ebrill.

Gyda'r cynhwysion allweddol hyn ar waith, rwy'n hyderus y gall y cyfundrefnau cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi twf economaidd a ffyniant hirdymor i'r DU. Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i'r blaenoriaethau cenedlaethol hollbwysig hyn ac yn cyflwyno rhaglen waith uchelgeisiol i'w cefnogi eleni, ac yn y dyfodol.

## 2. Gwybodaeth am y CMA

Mae'r CMA yn un o adrannau anweinidogol llywodraeth y DU, a hi yw prif awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr y DU. Rydym yn helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg.

Rydym yn cael ein pwerau drwy Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.[1]

Mae'r CMA yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd, ac mae nifer o benodiadau newydd wedi cael eu gwneud iddo'n ddiweddar, gan gynnwys Cadeirydd dros dro newydd, ym mis Ionawr 2025. Rydym yn cael ein harwain gan y Prif Weithredwr ac, ers llynedd, mae gennym uwch dîm gweithredol newydd sbon sydd â chymysgedd cryf o arbenigedd ym maes cystadleuaeth, defnyddwyr a chorfforaethol.

Mae penderfyniadau mewn rhai ymchwiliadau, gan gynnwys ymchwiliadau uno cam 2, yn cael eu gwneud gan aelodau o Banel annibynnol y CMA.

Mae gan y CMA gylch gwaith ledled y DU, gyda swyddfeydd yn Belfast, Caerdydd, Caeredin, Llundain a Manceinion, yn ogystal â'r Uned Microeconomeg (MU) yn Darlington. Rydyn ni'n mabwysiadu dull gweithredu integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ein gwaith, gan ddewis yr adnoddau rydyn ni'n credu a fydd yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar bobl a busnesau (lle bynnag maen nhw'n byw ac yn gweithredu yn y pedair gwlad), yn ogystal ag ar gyfer economi'r DU.

**Swyddogaethau**

Dyletswydd statudol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o dan y Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio yw hybu cystadleuaeth, yn y DU a thu hwnt, er budd defnyddwyr.

Ein prif swyddogaethau yw:

- **Ymchwilio i achosion o uno cwmnïau sydd â'r potensial i arwain at ostyngiad sylweddol mewn cystadleuaeth.** Os yw uno yn debygol o leihau cystadleuaeth yn sylweddol, gall y CMA dderbyn camau unioni i fynd i'r afael â phryderon neu, yn absenoldeb camau unioni effeithiol, wahardd y trafodiad. Mae'r CMA yn cyflawni'r swyddogaeth hon mewn ffordd gymesur wedi'i thargedu, gan alluogi'r rhan fwyaf o'r cynigion i fynd rhagddynt, gan edrych yn fanylach ar y nifer fach o achosion sy'n wirioneddol broblemus i ddefnyddwyr a busnesau yn y DU o safbwynt cystadleuaeth.
- **Ymchwilio i fusnesau i benderfynu a ydynt wedi torri cyfraith cystadleuaeth y DU**, gan rwystro ac atal hynny drwy ddirwyo busnesau a, lle bo hynny'n briodol, ceisio diarddel cyfarwyddwyr y cwmni dan sylw. Mae ymddygiad gwrth-gystadleuol anghyfreithlon yn tanseilio gweithrediad priodol cystadleuaeth deg, agored ac effeithiol. Gall mynd i'r afael ag ef leihau'r rhwystrau sy'n atal busnesau sy'n delio'n deg rhag ymuno a thyfu, yn ogystal â hybu cynhyrchiant a chymhellion ar gyfer buddsoddi.
- **Gorfodi deddfwriaeth diogelu defnyddwyr**, gan gynnwys drwy fodel gorfodi gweinyddol newydd ar gyfer diogelu defnyddwyr, y disgwylir iddi ddod i rym ym mis Ebrill

[1]Mae pwerau'r Swyddfa ar gyfer y Farchnad Fewnol wedi'u nodi yn Neddf Marchnad Fewnol y DU 2020. Mae gan y CMA bwerau sy'n gysylltiedig â'r Uned Cyngor am Gymorthdaliadau sy'n deillio o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

o dan Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024 (DMCCCA). Mae gorfodaeth defnyddwyr gref gan y CMA yn helpu i roi arian yn ôl ym mhocedi pobl ac yn sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg, er mwyn iddynt allu ymgysylltu'n weithredol ac yn hyderus mewn marchnadoedd. Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn gweithredu ochr yn ochr â nifer o gyrff eraill ledled y DU sydd â chyfrifoldebau gorfodaeth defnyddwyr, gan gynnwys safonau masnach ac aelodau eraill o'r Bartneriaeth Diogelu Defnyddwyr (CPP).

- **Cynnal astudiaethau, ymchwiliadau neu ddarnau eraill o waith i weld pam nad yw marchnadoedd penodol yn gweithio'n dda.** Gall y CMA gymryd camau – ac argymell y dylai eraill gymryd camau – i helpu marchnadoedd i weithio'n well. Gellir cynllunio ymyriadau i (er enghraifft) wella pris ac ansawdd i ddefnyddwyr, mynd i'r afael â rhwystrau i lwyddiant busnesau bach a busnesau sy'n tyfu, cefnogi twf economaidd, a meithrin ymddiriedaeth mewn marchnadoedd er budd pawb sy'n cymryd rhan.
- **Gweithredu trefn newydd i hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol** o dan y DMCCA. Mae'r drefn newydd wedi'i thargedu, yn gymesur ac wedi'i dylunio'n unigryw i ddatgloi cyfleoedd ar gyfer twf, arloesi a buddsoddiad yn sector technoleg y DU - ac yn ehangach ar draws yr economi.
- **Rhoi gwybodaeth neu gyngor ar faterion sy'n ymwneud ag unrhyw swyddogaethau'r CMA i lywodraethau a chyrff cyhoeddus ledled y DU.** Mae hyn yn cynnwys cyngor ar sut y gellir dylunio a gweithredu polisi i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a harneisio pŵer cystadleuaeth i sicrhau twf a ffyniant hirdymor i'r DU.
- **Darparu gwybodaeth a chyngor i bobl a busnesau** am eu hawliau a'u rhwymedigaethau o dan gyfraith cystadleuaeth a defnyddwyr. Mae hyn yn sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus a chael eu trin yn deg, yn ogystal ag annog a hwyluso cwmnïau i gydymffurfio â'r gyfraith.
- **Hyrwyddo cystadleuaeth gryfach a diogelu defnyddwyr yn y diwydiannau sy'n cael eu rheoleiddio** (nwy, trydan, dŵr, hedfanaeth, rheilffyrdd, cyfathrebu a gwasanaethau ariannol), gan weithio gyda rheoleiddwyr y sector i wneud hynny.
- **Cynnal apeliadau rheoleiddio a chyfeiriadau** mewn perthynas â rheolaethau prisiau, telerau trwyddedau neu drefniadau rheoleiddio eraill o dan ddeddfwriaeth sector-benodol, a bod yn barod i gynnig cyngor a chymorth i'r llywodraeth ar unrhyw newidiadau tymor hwy posibl i'r system apeliadau rheoleiddio.
- **Drwy'r Swyddfa ar gyfer y Farchnad Fewnol (OIM)**, darparu cyngor, adroddiadau a monitro mewn perthynas â masnach o fewn y DU.
- **Drwy'r Uned Cyngor am Gymorthdaliadau (SAU)**, darparu cyngor, adroddiadau a monitro mewn perthynas â chymorthdaliadau'r llywodraeth sy'n cefnogi amcanion polisi pwysig.
- **Drwy'r MU**, darparu dadansoddiad ac ymchwil arbenigol dwfn ar faterion sy'n berthnasol i dwf, arloesedd, cynhyrchiant, a diwygiadau ar ochr cyflenwyr.

### Effaith ein gwaith

Mae sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl, busnesau ac economi'r DU yn rhan annatod o waith y CMA. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwerthuso ac adrodd ar effaith ein gwaith, a'r ffordd rydym yn ei gyflawni.

Rydym yn gwneud hyn yn rheolaidd, gan gynnwys drwy ein Hasesiad Effaith blynyddol, ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon Blynyddol a chyfathrebu ehangach drwy gydol y flwyddyn; adolygiadau Canol Blwyddyn a Diwedd Blwyddyn gyda'r Adran Busnes a Masnach (ein hadran noddi) (DBT); ac ymddangosiadau gerbron Pwyllgorau Dethol Seneddol (gan gynnwys y Pwyllgor Busnes a Masnach, yr ydym yn atebol iddo fel ein Pwyllgor noddi). Ar

hyn o bryd mae'r CMA yn ymgysylltu â DBT ar gytundeb fframwaith rheoli perfformiad diwygiedig.

Fel y nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol 2024/25, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio ar raglen i wella'r gwaith o werthuso ac adrodd ar waith y CMA. Byddwn yn dechrau adrodd yn flynyddol ar effaith gwaith yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar dwf economaidd, drwy ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod adroddiadau blynyddol a chorfforaethol y CMA yn y dyfodol yn adlewyrchu unrhyw ofynion a nodir yn fersiwn derfynol Cyfeiriad Strategol newydd a chytundeb fframwaith diwygiedig Llywodraeth y DU. Rydym yn disgwyl, er enghraifft, adrodd yn benodol yn ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon yn y dyfodol ar sut rydym wedi defnyddio'r Cyfeiriad yn ymarferol.

**Budd ariannol uniongyrchol ac anuniongyrchol**

Bob blwyddyn, mae amcangyfrifon yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn dangos budd ariannol uniongyrchol ein gwaith i ddefnyddwyr. Mae hyn yn seiliedig ar dybiaethau ceidwadol ac mae'n destun adolygiad annibynnol.

Roedd ein Hasesiad Effaith diweddaraf yn dangos ein bod wedi dychwelyd cyfartaledd o dros £23 o arbedion i ddefnyddwyr yn y DU am bob £1 o arian trethdalwyr a wariwyd yn ystod y tair blynedd i 2023/24. Mae hyn yn erbyn y targed o £10:1 a osodwyd gan lywodraeth y DU. Yn ystod y deng mlynedd gyntaf o weithredu gan y CMA, fe wnaethom ddarparu dros £20bn o fuddion uniongyrchol i ddefnyddwyr.

**Amcangyfrif o gyfanswm y buddion i ddefnyddwyr, rhwng 2021/22 i 2023/24**
**£8.2bn**

**Amcangyfrif o'r buddion cyfartalog blynyddol i ddefnyddwyr a gyflawnwyd, rhwng 2021/22 to 2023/24**
**£2.7bn**

**Mae'r CMA wedi dychwelyd dros £23 mewn arbedion i ddefnyddwyr ar gyfer pob £1 a wariwyd gan drethdalwyr y DU rhwng 2021/22 a 2023/24**

**Amcangyfrif o'r buddion cyfartalog blynyddol i ddefnyddwyr a gyflawnwyd yn ôl maes ein gwaith**

| Gorfodi cystadleuaeth: | Gorfodaeth defnyddwyr: | Astudiaethau ac ymchwiliadau i'r farchnad: | Rheoli uno cwmnïau: |
|---|---|---|---|
| £123.5m | £175.2m | £1.8bn | £685.2m |

Nid yw’r Asesiad Effaith blynyddol hwn yn cynnwys llawer o fanteision anuniongyrchol ehangach, pwysig o ganlyniad i weithgareddau’r CMA – yn enwedig effaith ataliol ein gwaith, sy’n debygol o fod yn sylweddol. Er enghraifft, mae tystiolaeth yn dangos bod rhwng 5 a 28 cartel yn cael eu rhwystro ar gyfer pob un sy’n cael ei ddal, gan wneud cyfraniad anuniongyrchol sylweddol at y tegwch sy’n rhoi hyder i fusnesau sy’n delio’n deg a’u buddsoddwyr.

Ym mis Ionawr, fe wnaethom gyhoeddi Adolygiad llenyddiaeth newydd y CMA gan yr MU sy’n cyfuno canfyddiadau allweddol o astudiaethau diweddar ar effeithiau ehangach polisi cystadleuaeth a gorfodi. Mae’r corff tystiolaeth yn dangos bod gorfodi cystadleuaeth yn gadarn yn creu manteision economaidd ehangach sylweddol, gan gynnwys o ran arloesi, cynhyrchiant a lles defnyddwyr.

## 3. Cefnogi Twf, Cyfle a Ffyniant i'r DU

Mae'r CMA yn harneisio pŵer cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr er budd defnyddwyr a busnesau yn y DU. Mae hyn nid yn unig yn arwain at brisiau is, ond mwy o arloesi, dewis, ansawdd, sicrwydd cyflenwad, cynhyrchiant, buddsoddiad a deinameg economaidd.

Cystadleuaeth gref a diogelu defnyddwyr:

- Hybu **arloesedd, buddsoddiad, cynhyrchiant a deinameg** ar draws yr economi gyfan;
- Creu **cyfleoedd i fusnesau a buddsoddwyr yn y DU** ymuno â marchnadoedd, ehangu a ffynnu, yn hyderus y byddant yn cystadlu mewn amgylchedd teg;
- Manteisio i'r eithaf ar **effaith hirdymor twf a buddsoddiad** a helpu i sicrhau ei fod yn cael ei wasgaru ar draws yr economi gyfan;
- Meithrin **hyder pobl i ymgysylltu â marchnadoedd**, wedi'u grymuso i wneud dewisiadau gwybodus heb gael eu camarwain na'u hecsbloetio;
- Cynnal **gwydnwch economaidd a hunanddibyniaeth**, drwy fwy o amrywiaeth o ran cyflenwad a chymhellion cryfach i gwmnïau greu gweithrediadau cadarn.

**A thrwy'r rhain i gyd, meithrin ffyniant hirdymor er budd pawb yn y DU.**

**Cyfeiriad Strategol Drafft ar gyfer y CMA**

Cyhoeddwyd Cyfeiriad Strategol drafft Llywodraeth y DU ar gyfer y CMA ar 13 Chwefror 2025. Mae'r Cyfeiriad drafft yn adlewyrchu'r manteision sy'n deillio o gystadleuaeth effeithiol a diogelu defnyddwyr, gan osod y rhain yn ganolog o fewn prif nod y llywodraeth o sbarduno twf economaidd.

Mae'r Cyfeiriad drafft yn datgan bod y llywodraeth yn disgwyl gweld yn glir ac yn gyflym sut mae'r CMA yn bwriadu rhoi cyfrif am y Cyfeiriad newydd yn ein gwaith; ac i nodi sut rydym wedi rhoi'r Cyfeiriad ar waith yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y CMA. Mae ein cynlluniau cychwynnol i adlewyrchu'r Cyfeiriad drafft yn ein gwaith wedi'u nodi isod, yn amodol ar unrhyw newidiadau posibl pan gyhoeddir fersiwn derfynol y Cyfeiriad.

Mae'r Cyfeiriad drafft yn darparu fframwaith pwysig i arwain yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wrth i ni gyflawni ein swyddogaethau statudol i hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr. Mae'n atgyfnerthu pwysigrwydd cyfundrefn effeithiol ac annibynnol ar gyfer diogelu defnyddwyr a chystadleuaeth sy'n cefnogi twf drwy sbarduno mwy o gynhyrchiant, arloesedd a buddsoddiad. Mae'n egluro rôl y CMA o ran gwella hyder busnesau a defnyddwyr i dyfu'r economi; ac mae'n pwysleisio bod y ffordd yr awn ati i wneud ein gwaith yn arbennig o bwysig o ran buddsoddi a pha mor ddeniadol yw'r DU fel cyrchfan ar gyfer buddsoddi.

Yn fwy penodol, mae'r Cyfeiriad drafft yn darparu canllawiau defnyddiol ar yr ystyriaethau y dylai'r CMA eu cadw mewn cof lle mae gennym ddisgresiwn o ran pa faterion i fynd i'r afael â nhw, a'r ffordd orau o ymyrryd neu ddylunio atebion. Yn benodol:

- Lle mae gennym ddisgresiwn, mae gennym arweiniad clir ar beth i'w flaenoriaethu a *sut* i gynllunio ein hymyriadau, gyda ffocws cryf ar sbarduno twf a buddsoddiad yn y DU. Mae hyn yn cynnwys cefnogi twf a chystadleurwydd rhyngwladol yn wyth sector allweddol Strategaeth Ddiwydiannol llywodraeth y DU.

- Blaenoriaethu camau gweithredu lle mae effaith glir ac uniongyrchol yn y DU, a meddwl yn ofalus ynghylch pryd a sut rydym yn ymgysylltu â materion byd-eang.
- Yn y DU, gweithio gyda rheoleiddwyr perthnasol eraill i sicrhau bod camau rheoleiddio yn gydlynol ac yn amserol a'u bod yn cefnogi twf a buddsoddiad yn y DU.
- Defnyddio cyfundrefn cystadleuaeth y marchnadoedd digidol newydd yn hyblyg, yn gymesur ac ar y cyd i ddatgloi cyfleoedd ar gyfer twf ar draws sector technoleg y DU a'r economi ehangach.
- Defnyddio ein pwerau diogelu defnyddwyr uniongyrchol newydd o dan y DMCCA i helpu i dyfu'r economi drwy hybu ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr, gan atal arferion corfforaethol gwael ar yr un pryd.
- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gystadleuol sy'n niweidio busnesau a defnyddwyr cyn gynted â phosibl, yn unol â'r ddyletswydd prydlondeb newydd.
- Blaenoriaethu meysydd lle gall cystadleuaeth chwarae rhan bwysig o ran gyrru effeithlonrwydd a phrofiad gwell i ddefnyddwyr o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol.
- Parhau i roi tystiolaeth a chyngor i'r llywodraeth ar faterion polisi allweddol, gan gynnwys drwy ddarparu ymchwil a chyngor polisi ar ddatblygu'r Strategaeth Ddiwydiannol.
- A pharhau i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gyfoes i ddangos ein heffaith ar economi'r DU, gan gynnwys dangos sut mae cystadleuaeth yn gwella canlyniadau i ddefnyddwyr, yn annog arloesedd, yn sbarduno buddsoddiad, ac yn y pen draw yn sicrhau twf economaidd ledled y DU.

Rydyn ni'n egluro isod sut mae themâu'r Cyfeiriad drafft yn cael eu hadlewyrchu yn ein rhaglen waith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn benodol, rydyn ni'n amlinellu rhaglen uchelgeisiol o newid yn y ffordd rydyn ni'n gwneud ein gwaith, gan adlewyrchu nid yn unig y Cyfeiriad drafft ond hefyd yr adborth rydyn ni wedi'i glywed yn uniongyrchol gan fusnesau a buddsoddwyr. Mae'r adborth cyson hwn wedi tynnu sylw at bedair agwedd allweddol ar y ffordd rydym yn gweithio y mae'n rhaid iddynt esblygu: cyflymder, rhagweladwyedd, cymesuredd a phroses (yn bennaf ein hymgysylltiad uniongyrchol â busnes). Dyma 'fframwaith 4P' yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, ac mae agweddau allweddol ar y Cyfeiriad drafft yn cyd-fynd yn uniongyrchol â nhw.

## Defnyddio ein swyddogaethau statudol i sbarduno twf, cyfle a ffyniant i fusnesau a defnyddwyr yn y DU

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r pwerau a ymddiriedir i ni gan y Senedd mewn ffordd sy'n cynnal ein cyfrifoldeb i hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr, gan gefnogi twf a buddsoddiad ar yr un pryd.

**1 Drwy adolygiadau marchnad, astudiaethau ac ymchwiliadau'r CMA** rydym yn sicrhau bod marchnadoedd ar draws economi'r DU yn gweithio'n dda i fusnesau a defnyddwyr. Mae hynny'n cynnwys nodi a chael gwared ar rwystrau rhag mynediad a thwf; agor cyfleoedd i arloeswyr, entrepreneuriaid a buddsoddwyr; a sicrhau canlyniadau teg i ddefnyddwyr. Mae ein gwaith yn y marchnadoedd yn arwain at fanteision uniongyrchol sylweddol i ddefnyddwyr

a busnesau yn y DU.[2] Er enghraifft, roedd ein hymchwiliad i'r farchnad bancio adwerthu wedi braenaru'r tir ar gyfer chwyldro Bancio Agored y DU, gyda chwmnïau newydd a chwmnïau herwyr yn pweru llu o wasanaethau technoleg ariannol newydd. Mae'r rhain bellach yn cael eu defnyddio gan dros 70% o ddefnyddwyr y DU ac yn werth dros £4bn i economi'r DU bob blwyddyn.[3]

**Yn ystod y flwyddyn i ddod**, byddwn yn parhau â'n rhaglen barhaus o waith gyda marchnadoedd sy'n delio â defnyddwyr, sy'n helpu i roi arian yn ôl ym mhocedi pobl a sicrhau manteision ar draws y cynhyrchion a'r gwasanaethau maen nhw'n dibynnu arnyn nhw bob dydd. Yn ddiweddar, fe wnaethom gyflwyno cynigion cynhwysfawr i sicrhau prisiau gwell a mwy o ddewis i rieni yn y farchnad fformiwla babanod ac rydym yn barod i gefnogi'r llywodraeth i fwrw ymlaen â'r rhain. Bydd ein hymchwiliad i'r farchnad gwasanaethau milfeddygol yn dod i ben erbyn mis Tachwedd eleni, gan gefnogi diwydiant milfeddygol ffyniannus y mae miliynau o gartrefi ledled y DU yn dibynnu arno.

Ochr yn ochr â hyn, ac yn cyd-fynd â'r Cyfeiriad Strategol drafft, byddwn yn rhoi blaenoriaeth amlycach i waith marchnadoedd a allai gael effaith luosog ar dwf. Mae gwaith diweddar wedi cynnwys argymhellion i'r llywodraeth ar adeiladu tai, sy'n sbarduno buddsoddiad ac yn cefnogi cynhyrchiant drwy wella symudedd a sgiliau llafur; a seilwaith gwefru cerbydau trydan, asgwrn cefn trafnidiaeth gynaliadwy. Yn benodol, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddatgloi buddsoddiad mewn seilwaith hanfodol, ac yn nodi meysydd lle gall galluogwyr llorweddol allweddol (fel mynediad at ddata neu fabwysiadu technoleg) sbarduno twf.

Gan weithio'n agos gyda'r llywodraeth, a manteisio ar alluoedd ein MU, rydym yn gwerthuso sut gall ein marchnadoedd weithio i gefnogi'r gwaith o weithredu Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU yn llwyddiannus.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n adolygu'r ffordd rydyn ni'n cynnal ein marchnadoedd yn unol â'r fframwaith 4P a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn yn nes ymlaen yn y gwanwyn.

**2** Mae gan ein gwaith **gorfodi cystadleuaeth** rôl bwysig i'w chwarae o ran diogelu marchnadoedd sy'n sbarduno arloesedd a chynhyrchiant. Dim ond drwy farchnadoedd cystadleuol, lle mae cwmnïau'n cael eu cymell i chwarae yn ôl y rheolau, y gall busnesau a buddsoddwyr fod â hyder i fuddsoddi a thyfu. Mae hyn yn arbennig o werthfawr mewn marchnadoedd strategol bwysig i'r DU, fel gwasanaethau ariannol lle'r oedd y CMA yn ddiweddar yn mynd i'r afael â rhannu gwybodaeth rhwng banciau ynghylch bondiau'r llywodraeth (giltiau).

Gall ein gwaith gorfodi cystadleuaeth hefyd fod o fudd uniongyrchol i ddefnyddwyr a threthdalwyr drwy ostwng prisiau. Mae ein gwaith i fynd i'r afael â phrisiau rhy uchel cyffuriau hanfodol gan gwmnïau fferyllol wedi arbed cannoedd o filiynau o bunnoedd i'r GIG; ac mae ein gwaith gorfodi yn erbyn cartelau anghyfreithlon yn y sector adeiladu yn helpu i gefnogi seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus allweddol, gan gynnwys ysgolion, ysbytai, tai a ffyrdd.

---

[2]Mewn termau ariannol, roedd ein hastudiaethau marchnad a'n hymchwiliadau wedi arbed £1.76 biliwn y flwyddyn i bobl yn y DU ar gyfartaledd yn y tair blynedd ariannol rhwng 2021/22 a 2023/24.

Gweler tystiolaeth ddiweddar gan y diwydiant.

Mae'r CMA hefyd wedi cefnogi cydweithio cyfreithlon rhwng busnesau i sbarduno arloesedd neu fuddion economaidd eraill mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft drwy ein Canllawiau ar Gytundebau Gwyrdd. Mewn achosion eraill, mae'r CMA wedi cymryd safiad cyhoeddus i beidio â blaenoriaethu camau gorfodi yn erbyn cytundebau penodol, fel y rheini sy'n ymwneud â therapïau canser arloesol.

**Eleni**, byddwn yn parhau i atal arferion gwrth-gystadleuol cyfyngol, gwaharddol a chamfanteisiol. Yn unol â'r Cyfeiriad Strategol drafft, byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar gaffael cyhoeddus, wrth i'r llywodraeth fynd ar drywydd rhaglenni hanfodol i wella gwasanaethau cyhoeddus a buddsoddi mewn seilwaith economaidd.

Yn unol â'r Cyfeiriad drafft a chan ddefnyddio'r fframwaith 4P, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gyflymu effaith a chanlyniadau ein gwaith gorfodi cystadleuaeth. Gan adlewyrchu'r adborth gan fusnesau, byddwn hefyd yn rhoi rhagor o arweiniad ar sut gallant gydweithio i sbarduno mwy o gynhyrchiant ac arloesedd, yn enwedig yn sectorau blaenoriaeth Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU ac mewn meysydd o angen critigol ar gyfer economi'r DU, fel sgiliau.

## *CAFFAEL CYHOEDDUS*

Mae caffael cyhoeddus yn cynrychioli tua thraean o wariant cyhoeddus y DU, sy'n cyfateb i dros £300m y flwyddyn. Fodd bynnag, gall gwerth buddsoddiadau cyhoeddus gael ei beryglu'n ddifrifol gan ymddygiad gwrth-gystadleuol, fel rigio cynigion. Mae caffael yn agored iawn i'r arfer anghyfreithlon hwn, ac mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai chwyddo prisiau 20% neu fwy.[4]

Mae'r CMA yn cymryd camau gorfodi uniongyrchol yn erbyn yr arferion hyn, yn ogystal â defnyddio dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu i ragrybuddio dioddefwyr posibl. Rydym wedi cyrraedd tua 80,000 o swyddogion yn y sector cyhoeddus, gan arwain at gysylltu cynyddol â'r CMA ynghylch gweithgarwch amheus. Rydym hefyd yn cynghori'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus ledled y DU ar ddyluniad prosesau caffael cystadleuol, fel y nodir yn ein papur polisi yn 2021, a oedd yn cynnig bod 'cystadleuaeth effeithiol' yn cael ei chynnwys fel un o egwyddorion cyfreithiol caffael cyhoeddus i hybu gwerth am arian a lleihau'r risg o weithgarwch anghyfreithlon.

Gyda'r Ddeddf Caffael bellach mewn grym (o fis Chwefror 2025), mae'n bosibl y bydd cyflenwyr y canfuwyd eu bod wedi torri cyfraith cystadleuaeth yn cael eu hychwanegu at y gofrestr rhagwaharddiadau ganolog newydd a'u heithrio o'r holl gaffael cyhoeddus am hyd at bum mlynedd.

Bydd y CMA nawr yn adeiladu ar ein hanes cryf yn y maes hwn, yn enwedig drwy ddefnyddio ein harbenigedd adnabod rigio ceisiadau manwl a'n gallu helaeth ym maes deallusrwydd artiffisial a gwyddor data. Gan gyfuno'r rhain, rydym wedi dechrau helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus i ganfod anghysondebau mewn data bidio a dangosyddion ymddygiad anghyfreithlon posibl. Gan ddefnyddio'r adnoddau cywir, a gyda mynediad at y

---

[4] Government Counter Fraud Profession (2024), Bid-Rigging Risk in all Procurement: Practice Note.

data cywir, gallwn gynyddu lefelau canfod ymddygiad anghyfreithlon, gan o bosibl ddatgloi enillion cynhyrchiant sylweddol ac arbedion yn y sector cyhoeddus er budd trethdalwyr y DU.

**3** Gall **rheoli uno** gefnogi arloesedd a chynhyrchiant drwy gadw marchnadoedd yn agored ac yn gystadleuol, gan ddiogelu buddiannau defnyddwyr o ran prisiau is, nwyddau a gwasanaethau o ansawdd gwell, a mwy o ddewis.[5] Rydym wedi gweld y manteision hyn ar draws nifer o farchnadoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf – o ddilyniannu DNA a meddalwedd DNA, i gyflenwadau adeiladu a thrafnidiaeth rheilffyrdd. Rydym hefyd wedi gweld sut y gall rheoli uno effeithiol wella cymhellion ar gyfer buddsoddi, yn dilyn penderfyniadau mewn achosion fel Experian/Clearscore a Footasylum/JD Sports.

Nid yw'r mwyafrif helaeth o'r achosion o uno yn achosi unrhyw bryderon ynghylch cystadleuaeth – a gall llawer wella buddsoddiad, arloesedd a mwy o ddeinameg busnes. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ymarfer cymesur a phenodol y CMA o'n swyddogaeth rheoli uno, lle mae pob un heblaw nifer fechan iawn o achosion o uno rydym yn eu hadolygu yn mynd rhagddynt – naill ai'n ddiamod neu gydag atebion i liniaru effeithiau niweidiol lleihau cystadleuaeth yn sylweddol ar ddefnyddwyr a busnesau yn y DU.

Serch hynny, rydym yn gwybod bod gennym fwy i'w wneud i feithrin hyder yng nghyfundrefn uno'r DU a sicrhau ein bod yn cyfrannu at amgylchedd rheoleiddio sy'n hyrwyddo twf a buddsoddiad, gan barhau i gynnal ein cyfrifoldebau i ddefnyddwyr yn y DU.

Rydym wedi bod yn gweithio tuag at ddarparu profiad o'r radd flaenaf i'r holl bartïon sy'n rhan o adolygiad uno, gan gynnwys trawsnewid ein proses ymchwilio cam 2 yn sylweddol i ddarparu dull mwy tryloyw, cydweithredol a llai gwrthwynebus, gyda gwell cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu adeiladol. Yn ddiweddar, fe wnaethom hefyd godi trothwyon de minimis o £15m i £30m, gan ein helpu i ganolbwyntio ar achosion o uno sydd wir angen ein sylw.

**Nawr rydyn ni'n mynd ymhellach.** Gan weithredu'n uniongyrchol ar adborth gan fusnesau a buddsoddwyr, ac yn gyson â'r Cyfeiriad Strategol drafft, rydym wedi lansio pecyn o newidiadau cyflym ac ystyrlon i'r gyfundrefn uno sy'n seiliedig ar y 4P.

## *RHOI'R 4PS AR WAITH WRTH REOLI UNO*

Ym mis Chwefror, fe wnaethom lansio pecyn o gynigion ar gyfer dull newydd o reoli uno – un a fyddai'n cymharu'n ffafriol â chymheiriaid rhyngwladol, yn gwella hyder busnesau a buddsoddwyr, ac yn ein galluogi i barhau i ddiogelu cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr a busnesau yn y DU. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at roi'r newidiadau hyn ar waith, gyda mwy i ddod yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

### Cyflymder

Mae'r rhan fwyaf o'r cytundebau y mae'r CMA yn edrych arnynt yn cael eu clirio yn y pen draw (naill ai'n ddiamod neu gydag atebion), felly mae'n rhaid i ni symud mor gyflym â

[5] Mewn termau ariannol, roedd rheoli uno wedi arbed £685.2 miliwn y flwyddyn i bobl yn y DU ar gyfartaledd yn y tair blynedd ariannol rhwng 2021/22 a 2023/24

phosibl i gyrraedd y penderfyniadau cywir. Erbyn mis Mehefin 2025, er mwyn lleihau hyd ymchwiliadau uno o'r dechrau i'r diwedd, byddwn yn sefydlu Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) newydd i gwblhau'r cyfnod cyn-hysbysu o fewn 40 diwrnod gwaith (yn erbyn cyfartaledd presennol o 65). Byddwn hefyd yn lleihau'r targed presennol ar gyfer achosion cam 1 syml o 35 diwrnod gwaith i 25. Mae'r newidiadau hyn yn gofyn am symleiddio ein dull gweithredu yn sylweddol. Gyda chydweithrediad y partïon sy'n uno a'u cynghorwyr, rydym yn hyderus eu bod yn gyraeddadwy.

**Rhagweladwyedd**

Mae system uno 'gwirfoddol' y DU yn cynnig manteision o ran lleihau'r baich i hysbysu cwmnïau llai, a nifer llawer is o ymchwiliadau bob blwyddyn o'i gymharu ag economïau o faint tebyg.[6] Fodd bynnag, gall greu ansicrwydd ynghylch a fydd y CMA yn adolygu cytundeb penodol ai peidio; ac mae cyfraith y DU yn rhoi awdurdodaeth anarferol o eang i ni yn ôl safonau rhyngwladol.

Er mwyn cryfhau sicrwydd busnes, byddwn yn egluro ac yn amlinellu ein cylch gwaith (cyn belled ag y bo hynny'n bosibl yn gyfreithiol) drwy ddiweddaru ein canllawiau ar sut rydym yn dehongli ac yn defnyddio'r profion cyfreithiol perthnasol o ran 'dylanwad sylweddol' a 'rhannu cyflenwad'. Byddwn yn cyhoeddi'r canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer ymgynghori ym mis Mehefin.

**Cymesuredd**

Dylai pob cytundeb y gellir ei glirio naill ai'n ddiamod, neu gydag atebion effeithiol, gael ei glirio. Dim ond uno gwirioneddol broblemus, lle na ellir mynd i'r afael yn effeithiol â'r niwed i fusnesau a defnyddwyr drwy atebion, ddylai beidio â mynd rhagddo. Dylem hefyd bennu'r canlyniadau adferol gorau cyn gynted ac mor effeithlon â phosibl.

Yn ddiweddar, fe wnaethom lansio adolygiad o'n dull gweithredu ar gyfer atebion, gan edrych ar y broses a sut rydym yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng gwahanol fathau o atebion. Mae hyn yn cynnwys ystyried pryd y gallai atebion ymddygiadol fod yn briodol; sut y gellir defnyddio atebion i ddiogelu unrhyw effeithiau rhag-gystadleuol o ganlyniad i uno a manteision eraill i gwsmeriaid; a sut y gellir gwneud y broses o asesu atebion mor gyflym ac effeithlon â phosibl. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn ein helpu i gyflawni o ran cymesuredd – cyn belled â bod busnesau a chynghorwyr yn ymgysylltu'n ddidwyll, gan gynnig atebion cadarn a honiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda ynghylch buddion yn unig.

Yn unol â'r Cyfeiriad Strategol drafft, byddwn hefyd yn edrych ar gytundebau byd-eang mewn ffordd gymesur. Byddwn bob amser yn cynnal ein dyletswydd i ddiogelu defnyddwyr a busnesau yn y DU. Nawr rydym yn edrych yn ofalus ar ba mor bell (o dan y gyfraith bresennol) y gallem wahaniaethu'n gliriach rhwng cytundebau sydd ag effaith benodol ac uniongyrchol yn y DU, o'i gymharu â'r rheini lle gallai fod yn fwy priodol gwylio'n ofalus a allai camau gweithredu gan awdurdodau eraill ddatrys pryderon y DU.

**Proses**

---

[6] Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r CMA wedi cynnal rhwng 38 a 56 ymchwiliad cam 1 o'i gymharu â nifer o gannoedd o ymchwiliadau a agorwyd, yn y drefn honno, yn Ffrainc a'r Almaen (yn ogystal ag ymchwiliadau gan y Comisiwn Ewropeaidd).

Mae hyn yn ymwneud â sut mae'r CMA yn ymgysylltu â busnesau. Dylai pob busnes sy'n ymwneud â phroses uno deimlo bod y CMA yn gwrando arnynt; deall beth rydym yn ei wneud a pham; a chydnabod ymdeimlad o degwch a thriniaeth gyson. Rydym wedi cyhoeddi Siarter Uno sy'n nodi beth mae hyn – a'n hegwyddorion eraill o ran cyflymder, rhagweladwyedd, cymesuredd – yn ei olygu'n ymarferol. Rydym hefyd yn nodi ein disgwyliadau gan fusnesau a chynghorwyr i sicrhau llwyddiant y dull newydd hwn o weithredu.

Byddwn yn chwalu'r rhwystrau i ymgysylltu'n fwy uniongyrchol (y tu allan i, ac yn ystod ymchwiliadau), gan gynnwys drwy raglen allgymorth wedi'i thargedu ar gyfer busnesau a buddsoddwyr; cyfarfodydd uwch yn gynnar yn y broses adolygu; a chyfres o ddeunyddiau hygyrch, ymgysylltiol sy'n addas i fusnesau.

Dylai fod yn syml cadw golwg ar gyfraddau ymchwilio ac ymyrryd cywir a chyfredol y CMA ar gyfer uno. Rydym wedi adnewyddu'r ffordd rydym yn adrodd ar y wybodaeth hon er mwyn i'r holl randdeiliaid – busnesau a buddsoddwyr yn benodol – allu cael gafael ar ystadegau blynyddol a misol clir.

**4 Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn gorfodi cyfraith diogelu defnyddwyr** i ddiogelu pobl rhag triniaeth niweidiol ac annheg, gan gefnogi cyllid aelwydydd cadarn, a meithrin ymddiriedaeth mewn marchnadoedd sy'n cefnogi twf economaidd.[7]

Byddwn yn parhau'n fwriadol i flaenoriaethu meysydd gwariant hanfodol i helpu pobl sy'n cael trafferth gyda phwysau ar gyllidebau aelwydydd. Y llynedd, gwnaethom argymhellion i'r llywodraeth i wella gwybodaeth am brisiau unedau er mwyn i bobl allu chwilio'n haws am fargeinion da ac arbedion gwirioneddol. Aethom i'r afael â materion yn ymwneud â cham-werthu a thelerau contract problemus sy'n ymwneud â thai lesddaliad; a gwnaethom gefnogi twf cynaliadwy drwy ein gwaith ar honiadau gwyrdd camarweiniol.

Rydym hefyd wedi codi ymwybyddiaeth defnyddwyr ac wedi cymryd camau gorfodi ynghylch pensaernïaeth dewis ar-lein camfanteisiol mewn marchnadoedd adwerthu, gwerthu dan bwysau, ac adolygiadau ffug. Ym mis Ionawr, sicrhaodd yr CMA ymrwymiadau pwysig gan Google i fynd i'r afael ag adolygiadau ffug ar lwyfannau fel Google Maps. Gyda chymaint â £23bn o wariant blynyddol defnyddwyr yn y DU yn cael ei ddylanwadu o bosibl gan adolygiadau ar-lein, rhaid i ddefnyddwyr allu ymddiried yn yr adolygiadau maen nhw'n eu gweld, a rhaid i fusnesau sy'n gwneud y peth iawn beidio â chael eu rhoi dan anfantais.

Ym mis Medi 2024, fe wnaethom agor ymchwiliad i gydymffurfiad Ticketmaster â chyfraith diogelu defnyddwyr mewn perthynas â gwerthu tocynnau i daith aduniad 'Live'25' Oasis. Roedd hyn yn dilyn adroddiadau gan gefnogwyr am broblemau sylweddol wrth geisio prynu tocynnau. Mae'r CMA wedi bod yn ymgysylltu â Ticketmaster ac yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth o wahanol ffynonellau. Os yw'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn credu bod cyfraith diogelu defnyddwyr wedi cael ei thorri, gall (o dan y gyfraith bresennol) ofyn am ymgymeriadau gan y cwmni i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu, os oes angen,

[7]Mewn termau ariannol, roedd gorfodaeth defnyddwyr wedi arbed £175.2 miliwn y flwyddyn i bobl yn y DU ar gyfartaledd yn y tair blynedd ariannol rhwng 2021/22 a 2023/24

gallai gymryd camau cyfreithiol[8]. **Eleni**, daw pwerau gorfodaeth ddefnyddwyr gwell o dan y DMCCA i rym. Bydd y rhain yn rhoi hwb i allu'r CMA i fynd i'r afael â thwyll, arferion gwerthu camarweiniol, a thelerau annheg, ac yn helpu i sicrhau bod pob busnes sy'n delio'n deg yn gallu cystadlu mewn amgylchedd teg.

Yn unol â'r Cyfeiriad Strategol drafft, byddwn yn defnyddio'r pwerau hyn i helpu i dyfu'r economi drwy hybu ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr, gan atal arferion corfforaethol gwael ar yr un pryd.

## *PWERAU DIOGELU DEFNYDDWYR DMCCA*

Mae defnyddwyr yn haeddu gwybod bod y CMA yn eu gwarchod; ac mae busnesau sy'n delio'n deg yn haeddu gwybod bod eu cystadleuwyr yn chwarae yn ôl yr un rheolau ac nad ydynt yn gallu cael mantais gystadleuol drwy dorri'r gyfraith. O fis Ebrill, am y tro cyntaf, bydd y CMA yn gallu penderfynu a dorrwyd rhai deddfwriaethau diogelu defnyddwyr allweddol heb orfod mynd â busnesau i'r llys. Pan fydd y gyfraith wedi'i thorri, bydd y CMA yn gallu gosod dirwyon hyd at 10% o drosiant byd-eang blynyddol, yn ogystal â gorfodi'n uniongyrchol yr ymrwymiadau y cytunwyd arnynt gyda chwmnïau i ddatrys problem sy'n effeithio ar ddefnyddwyr.

Mae'r DMCCA hefyd yn caniatáu i orfodwyr eraill cyfraith diogelu defnyddwyr, fel Gwasanaethau Safonau Masnach a rheoleiddwyr y sector, wneud cais i lysoedd sifil am yr un cosbau ariannol ag y mae'r CMA yn gallu eu rhoi.

Ddechrau mis Ebrill, ochr yn ochr â'r canllawiau terfynol, byddwn yn cyhoeddi dogfen 'Dull Gweithredu' ar gyfer ein pwerau newydd i ddiogelu defnyddwyr. Bydd hyn yn cynnwys manylion am ein blaenoriaethau gorfodi ar gyfer 12 mis cyntaf y gyfundrefn newydd gan ganolbwyntio ar y niwed mwyaf amlwg: er enghraifft, arferion gwerthu ymosodol sy'n manteisio ar fod yn agored i niwed, darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr sy'n wrthrychol anghywir, a thelerau contract sy'n amlwg iawn yn anghytbwys ac yn annheg.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen am ragweladwyedd, cymesuredd ac ymgysylltu'n gryf â busnesau wrth i'r gyfundrefn newydd gael ei lansio. Rydym wedi clywed adborth cyson bod busnesau – mawr a bach – eisiau gwneud y peth iawn i'w cwsmeriaid ac mae llawer yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Ond i gwmnïau llai yn enwedig, rhaid i'r baich cydymffurfio fod yn gymesur. Rhaid iddo hefyd fod yn glir beth yn union sydd ei angen i sicrhau cydymffurfiaeth – yn enwedig mewn meysydd lle mae'r gyfraith wedi'i diweddaru neu'n llai clir.

Yn y pen draw, pan fydd busnesau'n gwneud pethau'n iawn, mae defnyddwyr yn elwa. Felly, rydym wedi dweud y byddwn, yn nyddiau cynnar y gyfundrefn, yn cefnogi'r mwyafrif helaeth o fusnesau sydd â bwriadau da ac sydd eisiau gwneud y peth iawn, gan roi'r eglurder iddynt i gydymffurfio cyn gynted â phosibl a'r hyder y bydd camau gorfodi cynnar yn gymesur. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn ein dogfen Dull Gweithredu ym mis Ebrill.

---

[8]Bydd sut y bydd yr achos yn mynd rhagddo yn dibynnu ar asesiad y CMA o'r dystiolaeth. Ni ddylid tybio bod unrhyw fusnes sy'n destun ymchwiliad wedi torri cyfraith defnyddwyr.

**5 Mae'r CMA wedi bwrw ymlaen ag amrywiaeth o gamau gweithredu i hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol yn ystod y blynyddoedd diweddar**, gan helpu i sicrhau bod y manteision enfawr y gall y rhain eu sicrhau yn cael eu gwireddu i ddefnyddwyr a busnesau ledled yr economi yn y DU.

Mae cystadleuaeth effeithiol yn meithrin tegwch er mwyn i holl fusnesau'r DU lwyddo (gan gynnwys miliynau o fusnesau bach, busnesau sy'n tyfu ac yn herio), gan alluogi'r cwmnïau technoleg mwyaf i barhau i chwarae rôl allweddol yn cefnogi arloesi, buddsoddi a datblygu talent.

Rydym wedi edrych yn helaeth ar farchnadoedd craidd fel chwilio, ecosystemau symudol, hysbysebu digidol a gwasanaethau cwmwl, gan nodi cyfleoedd ar gyfer cystadleuaeth effeithiol i wella arloesedd, buddsoddiad a thwf. Mae'r ymrwymiadau roeddem wedi'u sicrhau mewn perthynas â marchnadoedd ar-lein wedi helpu busnesau yn y DU i gael mynediad at y cwsmeriaid a'r mewnbynnau sydd eu hangen arnynt i dyfu ar delerau teg, gan leihau'r cyfle i gwmnïau mawr roi mantais annheg iddynt eu hunain ar draul cystadleuwyr.

Rydym hefyd wedi herio ein hunain ar sut y gall y CMA gefnogi ecosystem deallusrwydd artiffisial fywiog yn y DU – un gyda chyfleoedd i fusnesau amrywiol o bob lliw a llun ffynnu. Rydyn ni'n gwybod bod rheoleiddio llym, ysgubol yn gallu mygu arloesedd a thwf. Mae hyn i'r gwrthwyneb i'r hyn sydd ei angen ar y DU a'r hyn mae'r CMA yn ceisio ei gyflawni drwy hyrwyddo cystadleuaeth. Rydym wedi cyhoeddi cyfres o egwyddorion ar gyfer modelau sylfaen AI pwerus, gan helpu i arwain y marchnadoedd hyn tuag at y manteision mawr posibl y gallent eu creu i ddefnyddwyr a busnesau yn y DU.

**Eleni**, dan y DMCCA, mae cyfundrefn cystadleuaeth marchnadoedd digidol newydd nodedig wedi dod i rym, sy'n cynnig cyfle unigryw i harneisio manteision buddsoddiad ac arloesedd gan y cwmnïau digidol mwyaf, gan sicrhau cyfle teg i lwyddo i fusnesau ar draws sector technoleg y DU. Ar yr un pryd, bydd y llu o fusnesau a defnyddwyr yn y DU sy'n dibynnu ar y cwmnïau technoleg mwyaf ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau hanfodol yn elwa o fwy o arloesi, mwy o ddewis a phrisiau mwy cystadleuol.

Yn unol â'r Cyfeiriad Strategol drafft, byddwn yn defnyddio'r gyfundrefn cystadleuaeth marchnadoedd digidol newydd yn hyblyg, yn gymesur ac yn gydweithredol i ddatgloi cyfleoedd ar gyfer twf ar draws economi ddigidol y DU a'r economi ehangach. Byddwn yn cymryd gofal arbennig i sicrhau bod manteision o ran twf ac arloesedd yn cael eu blaenoriaethu mewn meysydd sy'n ymwneud â thechnolegau newydd a thechnolegau datblygol, gan gynnwys drwy gefnogi'r llywodraeth i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Gyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial.

## CYFUNDREFN CYSTADLEUAETH MARCHNADOEDD DIGIDOL

Ym mis Ionawr, fe wnaethom lansio ein hymchwiliadau cyntaf i ddynodiadau statws marchnad strategol (SMS) mewn perthynas â'r canlynol: (1) Safle Google mewn chwilio a gwasanaethau hysbysebu chwilio, a (2) safle Apple a Google yn eu 'ecosystemau symudol' eu hunain sy'n cynnwys y systemau gweithredu, siopau apiau a phorwyr sy'n gweithredu ar ddyfeisiau symudol. Mae'r rhain wedi'u cyfyngu o ran amser i naw mis a byddant yn dod i ben ym mis Hydref 2025.

Bydd sut rydym yn gweithredu'r gyfundrefn newydd hon yn hanfodol i'w llwyddiant – ac i sicrhau ei bod yn ennyn hyder busnesau a buddsoddwyr, yn y DU a thramor.

Mae'r gyfundrefn wedi cael ei chreu gyda nodweddion dylunio rheoleiddiol 'gorau yn y dosbarth' sydd eisoes yn cyd-fynd yn dda â 4P y CMA. Rydym wedi bod wrthi'n ystyried sut y gallem fynd hyd yn oed ymhellach mewn perthynas â chymhwyso'r 4P, yn ogystal â sut y byddwn yn ystyried y Cyfeiriad Strategol drafft. Ym mis Ebrill, byddwn yn cyhoeddi dogfen fer yn nodi hyn yn fanylach.

**Cyflymder**

Mae'r DMCCA yn gosod terfynau amser statudol tynn a dyletswydd prydlondeb statudol ehangach. Yn ymarferol, rydym am weithio mor gyflym â phosibl, gan gofio bod yn rhaid cydbwyso cyflymder ag ymgysylltiad ac effeithiolrwydd, yn enwedig ar ddechrau cyfundrefn newydd.

Byddwn yn symleiddio ein dull gweithredu ar gyfer ymchwiliadau, gan ganolbwyntio mor gyflym â phosibl ar feysydd pryder allweddol, gan ddatrys ymholiadau'n gyflym lle nad oes tystiolaeth glir o bryder yn codi, a blaenoriaethu materion lle gallwn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr a busnesau yn y DU yn gyflym ac yn effeithiol. Byddwn yn osgoi goreuro drwy ofyn am wybodaeth berthnasol yn unig, a thrwy gadw ein penderfyniadau mor fyr a chlir â phosibl.

**Rhagweladwyedd**

Un o gryfderau a nodweddion unigryw dull gweithredu'r DU yw natur bwrpasol a phenodol y gyfundrefn; ond gall hyn greu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a fydd cwmni'n cael ei ddynodi ac, os felly, pa reolau fydd yn berthnasol. Darperir rhywfaint o eglurder gan y ddeddfwriaeth, canllawiau cyhoeddedig, ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid ac amserlenni tryloyw.

Nawr rydyn ni'n mynd ymhellach i ddarparu rhagolwg i fusnesau a buddsoddwyr, drwy ymgorffori 'trywydd' cychwynnol ar gyfer ymyriadau posibl yn y dyfodol pe bai'r cwmni'n cael dynodiad SMS. Byddwn yn cyhoeddi'r trywydd pan fyddwn yn ymgynghori ar benderfyniad dynodi arfaethedig, gan roi eglurder ar faterion sy'n debygol o gael eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu cynharach, eu dadflaenoriaethu, neu'n parhau i gael eu hystyried ymhellach.

Bydd y trywyddion ar gyfer ein hymchwiliadau SMS presennol yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'n hymgynghoriadau ar y penderfyniadau arfaethedig ym mis Mehefin (ar gyfer chwilio), a mis Gorffennaf (ar gyfer dyfeisiau symudol).

**Cymesuredd**

Dyma yw calon cyfundrefn y DU. Yn wahanol i rai awdurdodaethau, nid oes proses awtomatig ar gyfer dynodiadau, na gofynion rheoleiddio awtomatig. Yn unol â hyn, gan adlewyrchu'r Cyfeiriad Strategol drafft ac egwyddorion blaenoriaethu'r Awdurdod Cystadlaethau a Marchnata, rydym wedi dweud y byddwn yn blaenoriaethu ymyriadau sy'n cael effaith glir ac uniongyrchol ar ddefnyddwyr a busnesau yn y DU, ac yn cefnogi buddsoddiad busnes a thwf economaidd yn gryf yn unol â'r Cyfeiriad Strategol drafft.

Gan adlewyrchu'r Cyfeiriad drafft, byddwn yn ystyried y rhyngweithio â rheoleiddwyr eraill yn y wlad ac yn rhyngwladol, gan flaenoriaethu lle mae achos clir dros weithredu sy'n benodol i'r DU. Byddwn hefyd yn ystyried lefelau risg yn ofalus ac a oes gennym adnoddau digonol ar gael i gyflawni canlyniadau effeithiol yn gyflym, gan gynnwys sicrhau bod gennym yr arbenigedd cywir a dealltwriaeth ddofn o'r marchnadoedd rydym yn edrych arnynt.

**Proses**

Mae'r drefn wedi'i chynllunio i fod yn gyfranogol iawn, yn seiliedig ar ymgysylltu dwfn â rhanddeiliaid amrywiol. Rydym yn herio ein hunain i wneud yn siŵr bod hyn yn gweithio go iawn i fusnesau a buddsoddwyr, gan roi rhaglen ymgysylltu reolaidd a diffiniedig ar waith a dull 'troi atoch chi' gan y CMA sy'n gyflym, yn hawdd ac yn anffurfiol i fusnesau.

Byddwn yn ymgysylltu â'n Cyngor Twf a Buddsoddi yn ystod ymchwiliadau SMS; yn parhau i gryfhau cysylltiadau â chymdeithasau masnach a chwmnïau cyfalaf menter yn y DU; yn ymgysylltu'n uniongyrchol â busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn y DU a fydd yn elwa o'n gwaith; ac yn ymestyn allan at gwmnïau mawr sydd wedi'u rhestru yn y DU (gan gynnwys y tu hwnt i'r sectorau technoleg a digidol) i ddeall eu safbwyntiau.

---

**6 Rydym yn darparu cyngor annibynnol ac arbenigol** i'r llywodraeth a llunwyr polisi ar lefelau'r DU, datganoledig a rhanbarthol.

- **Drwy ein swyddogaeth eiriolaeth statudol**, rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor i helpu i nodi diwygiadau polisi rhag-gystadleuol, ac i ddeall yr effaith y bydd gwahanol bolisïau'n ei chael ar gystadleuaeth mewn marchnadoedd penodol.

  Mae'r CMA yn gwneud llawer o waith rhagweithiol yn y maes hwn,  gan weithio'n agos gyda'r llywodraeth i sicrhau bod modd gweithredu ar ein cyngor a'n hargymhellion a'u cydbwyso, fel y bo'n briodol, gyda'r ystod ehangach o amcanion polisi'n cael eu dilyn. Gelwir am ein gwaith rheoleiddio (gan gynnwys gan bwyllgorau dethol Seneddol, seneddwyr unigol, llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus eraill) i edrych ar faterion o ddiddordeb neu bryder.

- **Mae MU y CMA** yn ffynhonnell hanfodol o arbenigedd, dadansoddi ac ymchwil sylfaenol, gan weithio'n agos iawn gyda Thrysorlys EF a DBT. Arweiniodd y MU waith y CMA yn 2024 ar farchnadoedd llafur y DU, gan lansio ymchwil newydd ynghylch manteision marchnadoedd llafur sy'n gweithio'n dda, sy'n cael eu cydnabod yn eang fel sbardun pwysig ar gyfer twf economaidd a chynhyrchiant. Roedd hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu trydydd adroddiad y CMA ar Gyflwr Cystadleuaeth, sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd parhau i weithredu i gadw marchnadoedd yn agored, yn gystadleuol ac yn ddeinamig i economi'r DU.

**Eleni**, yn unol â'r Cyfeiriad Strategol drafft, byddwn yn darparu cyngor arbenigol a syniadau newydd i'r llywodraeth ar feysydd polisi pwysig – llawer â ffocws cryf ar dwf – gan gynnwys deinameg y farchnad, seilwaith, diwygio cynllunio, trafnidiaeth, data clyfar a deallusrwydd artiffisial. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd yn 2024 ynghylch sut gellir harneisio cystadleuaeth i gefnogi Strategaeth Ddiwydiannol y llywodraeth.

Byddwn hefyd yn datblygu ein Rhaglen Twf MU sy'n canolbwyntio ar yrwyr critigol a ffactorau sy'n rhwystro twf. Rydym yn disgwyl i'n gwaith eiriolaeth ategu ein hymdrechion ehangach i dargedu ein swyddogaethau i gefnogi twf a buddsoddiad, gan gynnwys mewn sectorau sy'n ganolog i Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU.

## CYMORTH MICRO-ECONOMAIDD AC EIRIOLAETH I'R STRATEGAETH DDIWYDIANNOL A'R GENHADAETH TWF

Mae'r CMA wedi croesawu gweledigaeth llywodraeth y DU ar gyfer strategaeth ddiwydiannol fodern fel un o bileri canolog y genhadaeth twf genedlaethol. Yn union fel y mae polisi sgiliau, masnach, treth neu ynni yn ffactorau allweddol i gefnogi twf sectoraidd, felly hefyd polisi cystadleuaeth, gan helpu i sicrhau bod strategaeth ddiwydiannol yn creu ac yn cipio'r gwerth hirdymor mwyaf i'r DU.

Bydd yr Awdurdod Cystadlaethau a Marchnata yn cefnogi'r Strategaeth Ddiwydiannol drwy wneud y canlynol:

- Defnyddio ein pwerau'n uniongyrchol i hyrwyddo twf mewn sectorau strategol bwysig, gan ddileu rhwystrau i lif cyfalaf, arloesi a thyfu busnesau;
- Roi cyngor i'r llywodraeth pan fydd yn gweithredu i sbarduno twf mewn sectorau penodol, gan gynnwys ynghylch sut gall egwyddorion rhag-gystadleuol gynyddu effaith hirdymor yr ymyriadau hynny ar draws yr economi, gan leihau'r risg o ganlyniadau anfwriadol.

Mae ein galluoedd cynghori yn manteisio ar arbenigedd economaidd sylweddol, gan gynnwys o fewn yr MU. Mae Rhaglen Twf yr MU (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024) wedi'i chynllunio i gefnogi cenhadaeth twf a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU, a bydd yn parhau i wneud hynny yn ystod 2025/26.

Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio'n fras ar ffactorau critigol sy'n sbarduno ac yn rhwystro twf, gan gynnwys:

- Tystiolaeth o ymyriadau polisi diwydiannol o blaid twf, a gwersi o brofiad blaenorol yn y DU a thramor i helpu i hysbysu strategaeth y DU, gan gynnwys eu heffaith ar gynhyrchiant a chystadleuaeth. **Disgwylir i'r CMA gyhoeddi'r canfyddiadau ym mis Ebrill.**
- Adolygiad o dystiolaeth o rôl cystadleuaeth wrth yrru a chyfeirio buddsoddiad tuag at ddefnyddiau cynhyrchiol ar draws cylchred oes y cwmni. **Disgwylir i'r CMA gyhoeddi'r canfyddiadau cychwynnol yn yr Haf.**
- Dadansoddi cynhyrchiant ar draws ac o fewn sectorau, cysylltiadau rhwng hyn a mabwysiadu a lledaenu technoleg a gwybodaeth ar draws yr economi, a rôl cystadleuaeth wrth hyrwyddo mabwysiadu technoleg. **Disgwylir i'r CMA gyhoeddi'r canfyddiadau yn yr Haf.**
- Deall cryfder cystadleuaeth ar hyd rhwydweithiau cadwyn gyflenwi ar draws economi'r DU, a sut mae pŵer y farchnad, costau a chynhyrchiant yn lluosogi drwyddynt. **Disgwylir i'r CMA gyhoeddi ein canfyddiadau yn yr Hydref.**

Mae'r Rhaglen yn cael ei hysbysu'n uniongyrchol gan drydydd Adroddiad y CMA ar Gyflwr Cystadleuaeth (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024), sef yr asesiad mwyaf cynhwysfawr hyd yma o sut mae cystadleuaeth yn gweithio yn y DU. Canfu'r Adroddiad fod lefelau cystadleuaeth effeithiol yn y DU wedi gwanhau ychydig dros amser, er bod hynny yn llai nag mewn economïau eraill. Canfu hefyd fod lefelau deinameg busnes wedi gostwng, gan atgyfnerthu rôl bwysig gorfodi cystadleuaeth yn effeithiol i ysgogi mwy o ddeinameg busnes ac arloesedd, cynhyrchiant a thwf parhaus ar draws yr economi gyfan.

**7 Mae’r CMA hefyd yn gartref i wasanaethau cyngor arbenigol ar gymorthdaliadau (SAU) a swyddogaethau marchnad fewnol y DU (OIM)**, sy’n darparu adroddiadau, monitro a chyngor i bob lefel o lywodraeth. Mae gwaith y SAU yn cefnogi llywodraeth y DU, llywodraeth ddatganoledig a llywodraeth leol i gyflawni gweithgarwch pwysig i sicrhau twf ac amcanion polisi cyhoeddus eraill drwy fecanweithiau cymhorthdal. Mae gwaith yr OIM yn cefnogi llywodraethau cenedlaethol sy’n ceisio darparu sefydlogrwydd rheoleiddiol i fusnesau fuddsoddi, tyfu ac arloesi.

**Eleni**, bydd y SAU yn cynnal gwaith ymchwil a chasglu gwybodaeth i gefnogi ei adroddiad cyfnodol ar weithrediad ac effaith y drefn rheoli cymorthdaliadau. Bydd yr OIM yn cyflawni ei swyddogaethau statudol, gan gynnwys cyhoeddi ei ddiweddariad i'r trywydd strategaeth data (yng nghyd-destun adolygiad llywodraeth y DU o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU).

## 4. Esblygu'r ffordd rydym yn gweithio

Fel awdurdod annibynnol ar gyfer cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr, mae'r CMA wedi'i sefydlu i ddarparu sefydlogrwydd hirdymor i'r rheini rydyn ni'n eu gwasanaethu. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein gwaith i hyrwyddo cystadleuaeth a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg yn sbarduno'r twf, cyfleoedd  a'r ffyniant rydym i gyd yn dymuno eu gweld, gyda'r buddion (tymor byr a thymor hir) yn cael eu teimlo gan ddefnyddwyr a busnesau yn y DU.

Mae chwarae ein rhan i gyflawni'r canlyniadau hyn, gan gynnwys sicrhau bod y DU yn lle deniadol yn fyd-eang i fuddsoddi a chynnal busnes, yn golygu mwy na dim ond y gwaith rydyn ni'n ei wneud. Mae sut rydyn ni'n mynd ati i wneud hynny hefyd yn bwysig. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Cyfeiriad Strategol drafft, sy'n ei gwneud yn glir bod yn rhaid i ni gyflawni ein dyletswyddau mewn ffordd sy'n cefnogi twf ac yn meithrin hyder busnesau a buddsoddwyr.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd cyson o ran blaenoriaethu, symleiddio ac effeithlonrwydd ein prosesau, yn ogystal â buddsoddi mewn talent a gallu. Rydym wedi sicrhau newid sylweddol o ran ymgysylltu agored ac adeiladol â'r holl randdeiliaid, yn enwedig y gymuned fusnes a buddsoddi. Rydym wedi cymryd camau i fod yn fwy agored a thryloyw, gan gynnwys gwella ein hatebolrwydd i'r Senedd, gyda chynnydd bedair gwaith yn nifer yr ymddangosiadau CMA mewn pwyllgorau Seneddol rhwng 2019 a'r llynedd.

Mae ein gallu digidol a thechnoleg wedi cynyddu. Rydym wedi gwneud buddsoddiad sylweddol ers 2019 mewn datblygu galluoedd technegol mewnol, wedi'u hintegreiddio ochr yn ochr â disgyblaethau eraill i fod yn Gyfarwyddiaeth Ddigidol, Technoleg a Mewnwelediad newydd. Mae hyn wedi bod yn allweddol i fynd i'r afael â heriau ymchwiliadau cynyddol gymhleth, gan gynnwys pob achos digidol mawr a gwaith rhagweithiol ar ddeallusrwydd artiffisial. Rydym wedi bod yn defnyddio'r gallu hwn yn fewnol drwy brofi dulliau deallusrwydd artiffisial a gwyddor data arloesol. Rydym wedi dechrau datblygu gallu 'dadansoddi strategol' newydd i ddyfnhau ein dealltwriaeth o strategaethau a modelau busnes cwmnïau (gan gynnwys mewn perthynas â deallusrwydd artiffisial ac 'ecosystemau digidol'). Mae dod â llais a phersbectif busnesau a buddsoddwyr yn uniongyrchol i'n gwaith yn hanfodol er mwyn helpu i greu'r amodau ar gyfer arloesi, buddsoddi a thwf.

Er bod llawer wedi'i gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf, rydym yn ymwybodol bod canfyddiadau ynghylch sut mae'r CMA yn gweithredu yn bwysig i gystadleurwydd byd-eang y DU heddiw. Rydym wedi ymrwymo i chwarae ein rhan, gan sicrhau newid sylweddol eleni yn y ffordd rydym yn gweithredu ar draws ein holl swyddogaethau. Efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn teimlo rhai manteision o ganlyniad i'r newidiadau cadarnhaol rydym yn eu rhoi ar waith ar unwaith, tra bydd eraill yn cymryd amser. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at brif elfennau ein cynlluniau.

## Y 4P

Fel y nodir uchod, rydym wedi clywed adborth clir gan fusnesau a buddsoddwyr (yn ddomestig ac yn rhyngwladol) bod pedair agwedd ar sut rydym yn cyflawni ein gwaith yn bwysig iawn i ganfyddiadau o'r DU fel lle gwych i wneud busnes.

Y rhain yw:

- **Cyflymder**
- Rhagweladwyedd
- **Cymesuredd**
- **Proses**

Rydym wedi gweithio'n gyflym ers diwedd y flwyddyn ddiwethaf i gyflwyno newidiadau ystyrlon sydd wedi cael eu hystyried yn ofalus ar sail y 4P hyn. Dechreuasom gyda rheoli uno, sef lle'r ydym wedi cael yr adborth mwyaf uniongyrchol gan randdeiliaid, ac yr ydym yn gwybod ei fod yn arbennig o bwysig i hyder busnesau a buddsoddwyr.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr egwyddorion arferion gorau hyn yn berthnasol i feysydd eraill o'n gwaith ac rydym yn awr yn gwneud cynnydd pendant ar draws pob un o'r rhain. Yn benodol, ym mis Ebrill byddwn yn darparu rhagor o ddiweddariadau ar sut rydym yn cymhwyso'r fframwaith 4P i'r marchnadoedd digidol newydd a'r trefniadau diogelu defnyddwyr a gyflwynwyd o dan y DMCCA. Bydd diweddariadau ar farchnadoedd a gorfodi cystadleuaeth yn dilyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

## Ymgysylltu allanol

Yn fwy nag erioed, mae'r CMA yn cydnabod gwerth ymgysylltu rhagweithiol â rhanddeiliaid. Rhaid i'r agwedd agored hon at drafodaeth adeiladol ac adborth parhaus fod yn rhan o DNA ein sefydliad. Eleni byddwn yn cynnal ac yn dyfnhau'r berthynas ag amrywiaeth wirioneddol amrywiol o randdeiliaid.

Byddwn yn parhau â'n deialog hollbwysig gyda grwpiau eiriolaeth defnyddwyr, cymdeithas sifil, y byd academaidd a'r trydydd sector. Fel gyda busnesau bach, er enghraifft, gwyddom nad yw bob amser mor hawdd i'r grwpiau hyn ymgysylltu â'r CMA. Rydym yn croesawu'r amrywiaeth barn a'r dyfnder arbenigedd y gallant ei gynnig, ac rydym wedi ymrwymo i lwybrau ymgysylltu eang a chynhwysol sy'n ystyried hyn. Yn benodol, mae deialog rheolaidd gyda grwpiau defnyddwyr (ar lefel uwch a lefel gweithio) yn hollbwysig i'n gwaith. Mae'r dirwedd defnyddwyr yn gymhleth, ac mae'r cysylltiadau hyn yn ein helpu i ddeall a mynd i'r afael yn effeithiol â materion defnyddwyr ledled y DU.

Rydym wedi cynyddu ein hymgysylltiad uniongyrchol â busnesau o bob lliw a llun – o'r cwmnïau byd-eang mwyaf i herwyr, newydd-ddyfodiaid, entrepreneuriaid a buddsoddwyr. Mae gwerth yr ymgysylltu uniongyrchol hwn â chwmnïau eu hunain (yn wahanol i ymgysylltu drwy gwmnïau cynghori) wedi bod yn nodedig ac wedi helpu i hysbysu ein rhaglen 4P. Byddwn yn parhau â'r trafodaethau rheolaidd ac adeiladol hyn – y tu mewn a'r tu allan i ffiniau'r cytundebau neu'r marchnadoedd y byddwn yn ymchwilio iddynt.

Mae hyn yn cynnwys ymgorffori dull gweithredu gwirioneddol gyfranogol yn y gyfundrefn cystadleuaeth marchnadoedd digidol newydd sy'n seiliedig ar ymgysylltu uniongyrchol, parhaus ac agored gyda darpar gwmnïau SMS a'r set lawn o randdeiliaid sydd â diddordeb o'r cychwyn cyntaf. Rydym yn disgwyl defnyddio gwersi o'r ymgysylltu hwn y gellir eu defnyddio ar draws meysydd eraill gwaith yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â chyrff amrywiol yn y diwydiant ar draws economi'r DU, gan gynnwys drwy Gyngor Twf a Buddsoddi newydd y CMA. Mae'r Cyngor yn dwyn ynghyd 12 uwch gynrychiolydd busnes, buddsoddwyr a buddiannau ariannol er mwyn cyflawni nod cyffredin: sicrhau bod cystadleuaeth effeithiol a diogelu defnyddwyr yn sbarduno arloesedd, buddsoddiad a thwf ar draws economi'r DU. Mae'r Cyngor yn awr yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod, cytuno a thracio argymhellion pendant (y tu allan i achosion unigol). Rydym wedi cynnal un cyfarfod adeiladol iawn hyd yma ac wedi cael adborth defnyddiol, gan gynnwys arweiniad i ganolbwyntio ein hymdrechion ar sectorau penodol yn y Strategaeth Ddiwydiannol ac i chwilio am gyfleoedd i egluro sut mae'r CMA yn cymharu â chymheiriaid rhyngwladol.

## Adrodd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cystadleuaeth gadarn a diogelu defnyddwyr, gan wella hyder busnesau, a helpu i sbarduno twf a buddsoddiad.

Byddwn yn dryloyw ynghylch effaith ein hymyriadau drwy:

- Adrodd ar ein perfformiad yn erbyn cyflawni targed y llywodraeth o fuddion ariannol uniongyrchol disgwyliedig i ddefnyddwyr o ddeg gwaith ei gostau perthnasol o leiaf i'r trethdalwr (a fesurir dros gyfnod treigl o dair blynedd), gan gynnwys dadansoddi hyn yn ôl ein prif adnoddau;
- Asesu manteision ehangach ein gwaith, a chyflawni yn erbyn ein Cynllun Blynyddol, drwy ddogfennau llywodraethu cyhoeddedig a chyfathrebu ehangach, yn ogystal ag adrodd yn rheolaidd i'n hadran noddi a'n pwyllgor Seneddol;
- Adolygu ac adrodd yn benodol ar sut mae ein gwaith wedi cyfrannu at dwf economaidd yn ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon yn y dyfodol, yn ogystal â sut rydym wedi rhoi Cyfeiriad Strategol newydd llywodraeth y DU ar waith; a
- Gweithio gyda DBT i ddarparu ffordd o gasglu adborth clir gan amrywiaeth eang o randdeiliaid ar sut rydym yn gweithio (gan gynnwys mewn perthynas â'r 4P), a hefyd adrodd ar hyn yn flynyddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r Cyfeiriad Strategol drafft a bydd yn ein galluogi i chwarae'n ôl, mewn ffordd fwy cyson a thryloyw, yr hyn rydym wedi'i glywed a sut rydym wedi gweithredu arno.

# 5. Blaenoriaethu a gweithrediadau

**Blaenoriaethu**

Mewn unrhyw flwyddyn benodol, mae'r CMA yn gwneud cryn dipyn o waith i gyflawni ein swyddogaethau statudol craidd. Ar draws pob un o'r rhain, rydym yn gwneud penderfyniadau blaenoriaethu cadarn i sicrhau ein bod yn gallu sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl, busnesau ac economi'r DU.

Mae rhai o'n swyddogaethau – er enghraifft, ein gwaith gorfodi marchnadoedd, defnyddwyr a chystadleuaeth – yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r CMA wneud dewisiadau ystyriol ynghylch sut i flaenoriaethu ein hadnoddau. Mewn meysydd eraill, fel yr achosion uno cwmnïau rydym yn eu hadolygu mewn unrhyw flwyddyn benodol, mae gan y CMA lai o ddisgresiwn.

Rydym yn defnyddio egwyddorion blaenoriaethu cyhoeddedig i gyfeirio ein sylw a'n hadnoddau yn ofalus:

- Arwyddocâd strategol: ydy'r camau gweithredu yn y maes hwn yn cyd-fynd ag amcanion a strategaeth y CMA?
- Effaith: pa mor sylweddol yw effaith gadarnhaol debygol camau gweithredu'r CMA?
- A yw'r CMA yn y sefyllfa orau i weithredu: a oes dewis arall priodol yn lle camau gweithredu'r CMA?
- Adnoddau: a oes gan y CMA y gallu priodol i weithredu'n effeithiol?
- Risg: pa fathau o risgiau sy'n gysylltiedig â chamau gweithredu'r CMA, a pha mor arwyddocaol ydyn nhw?

Fel y nodir yn ein hegwyddorion blaenoriaethu, rydym yn ystyried Cyfeiriad Strategol drafft Llywodraeth y DU pan fyddwn yn blaenoriaethu ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethu ymyriadau o blaid twf ac o blaid buddsoddi; canolbwyntio ar farchnadoedd a niwed sy'n effeithio'n benodol ar ddefnyddwyr a busnesau yn y DU; gwella hyder busnesau a defnyddwyr; a chefnogi twf a chystadleurwydd rhyngwladol yn wyth sector allweddol y Strategaeth Ddiwydiannol. Fodd bynnag, y CMA sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol ar achosion unigol, yn unol â'r fframwaith statudol perthnasol.

Mae egwyddorion blaenoriaethu ar wahân yn sail i benderfyniadau a wneir mewn perthynas â rhywfaint o waith a wneir gan OIM a SAU. Mae'r rhain wedi'u nodi mewn canllawiau penodol ar ddull gweithredu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer y swyddogaethau hyn.

**Gweithrediadau**

Gan adeiladu ar raglenni newid mewnol diweddar, rydym yn rhoi cynllun trawsnewid sefydliadol tair blynedd wedi'i dargedu ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen waith uchelgeisiol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ein hamlen gyllido. Mae Trysorlys EF wedi dyrannu setliad cyllido i'r CMA ar gyfer 2025/26 sy'n cynnwys cyllideb Terfyn Gwariant Adrannol ar Adnoddau (heb gynnwys dibrisiant) o £137.42 miliwn a chyllideb Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf o £5.1 miliwn.

Bydd y cynllun hwn yn sicrhau bod y CMA yn parhau i weithio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl ar draws ein holl swyddogaethau, gan ddefnyddio ein fframwaith 4P, sef cyflymder, rhagweladwyedd, cymesuredd a phroses, harneisio trawsnewid digidol, datblygu ein pobl a'n gallu, a gwneud y gorau o'n gweithrediadau busnes.

# 6. Sut mae'r CMA yn gweithio gyda rheoleiddwyr a phartneriaid eraill

Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn rhannu cyfrifoldebau pwysig ar draws yr agweddau ar ein rôl sy'n ymwneud â chystadleuaeth a diogelu defnyddwyr. Mae ein penderfyniadau ynghylch pryd a ble i weithredu yn aml yn cael eu hysbysu gan y cyfrifoldebau cyffredin hyn. Rydym yn gweithio'n rhagweithiol ac ar y cyd â phartneriaid ar draws y dirwedd reoleiddio, gan gynghori, arwain a chydweithio, i helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr a busnesau yn y DU.

Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

## Sectorau rheoledig

Mae'r sectorau sy'n cael eu rheoleiddio yn hanfodol i bobl, busnesau ac economi'r DU. O ynni i yswiriant, band eang i drenau, rydym i gyd yn dibynnu ar wasanaethau hanfodol yn y sectorau hyn mewn bywyd bob dydd, ac maent yn cyfrif am tua 20% o wariant cartrefi.

Gall cystadleuaeth effeithiol mewn sectorau rheoledig ysgogi cwmnïau i ddiwallu anghenion eu cwsmeriaid, codi prisiau is, gweithredu'n fwy effeithlon, buddsoddi ac arloesi.[9] Mae cyd-ddibyniaeth hollbwysig hefyd rhwng cystadleuaeth effeithiol a diogelu defnyddwyr yn effeithiol. Er mwyn i farchnadoedd adwerthu weithio'n dda, gwyddom fod angen i gystadleuaeth rhwng cwmnïau gael ei hategu gan ddefnyddwyr sydd wedi'u grymuso i ddewis rhwng cynigion. Yn fwy na hynny, bydd cymorth ar gyfer y buddsoddiadau sydd eu hangen yn y sectorau hyn yn dibynnu ar sicrhau bod gan fusnesau a defnyddwyr hyder a'u bod yn cael eu trin yn deg yn y marchnadoedd hyn.

Mae'r CMA yn chwarae dwy rôl sydd wedi'u diffinio'n glir mewn perthynas â'r sectorau rheoledig. Yn gyntaf, rydym yn rhannu pwerau cystadleuaeth a defnyddwyr sy'n cydredeg â rheoleiddwyr y sector. Yn ail, rydym yn penderfynu ar apeliadau rheoleiddio ar gyfer rhai sectorau, lle mae'r CMA yn debygol o wneud llawer iawn o waith yn y flwyddyn i ddod o ystyried bod nifer o gwmnïau wedi herio'r rheolaeth ar brisiau a gyflwynwyd drwy adolygiad prisiau diweddaraf Ofwat (PR24). Disgwylir y bydd cyfeiriadau ailbenderfynu yn cael eu gwneud gan Ofwat i'r CMA ym mis Mawrth 2025, gyda therfyn amser statudol o chwe mis, y gellir ei ymestyn i 12 mis. Bydd Panel CMA annibynnol yn gwneud yr ailbenderfyniadau yn unol â'r egwyddorion sy'n berthnasol i Ofwat (gan gynnwys dyletswyddau statudol perthnasol), gan ystyried ei farn ei hun ar gydbwysedd dyletswyddau a chymhwyso'r egwyddorion hyn i reolaethau prisiau'r cwmni sy'n anghytuno.

Mae'r CMA yn arfer ein swyddogaethau statudol hyd eithaf ein gallu. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod bod cwestiynau dilys mewn rhai sectorau ynghylch sut mae rheoleiddio'n gweithredu a'r canlyniadau y mae wedi'u sicrhau i ddefnyddwyr ac i'r economi ehangach. Boed hynny mewn perthynas ag ansawdd gwasanaeth, cadernid rhwydwaith neu foddhad

[9]Mewn llawer o sectorau, boed hynny oherwydd monopoli naturiol neu fethiant yn y farchnad, nid yw pwysau cystadleuol arferol yn berthnasol. Mae rheoleiddwyr yn allweddol i lenwi'r bwlch: gosod a gorfodi safonau ar wasanaethau, galluogi mynediad at seilwaith, a gorfodi buddsoddiadau ar gyfer y dyfodol. Serch hynny, mae gan bolisi cystadleuaeth ran i'w chwarae yn y sectorau sy'n cael eu rheoleiddio. Hyd yn oed lle nad dyma'r ffactor pwysicaf, mae angen iddo weithio ochr yn ochr â rheoleiddio a chael ei gefnogi ganddo i sicrhau'r canlyniadau gorau.

cwsmeriaid, mewn llawer o achosion mae teimlad y gallai'r DU fod yn gwneud yn well, ac y dylai fod yn gwneud hynny. Bydd gwneud yn well hefyd yn hanfodol i gyflawni cenhadaeth twf llywodraeth y DU; mae darparu seilwaith effeithlon o ansawdd uchel yn sail i berfformiad busnesau ym mhob rhan o'r economi, gan leihau costau a chynyddu cynhyrchiant. Bydd sicrhau bod rheoleiddio'n cael ei wneud yn iawn yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn.

Mae ein adolygiad cydgyfeiriant diweddar – deng mlynedd ers diwygiadau'r llywodraeth – yn argymell bod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn cynyddu ein cydweithrediad â rheoleiddwyr y sector wrth edrych ar faterion sy'n ymwneud â chystadleuaeth a defnyddwyr sy'n ehangach nag ymddygiad gwrthgystadleuol anghyfreithlon. Rydym yn croesawu'r cyfle i weithio gyda rheoleiddwyr y sector i fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn, ochr yn ochr â nifer o rai eraill yn ein hadroddiad.

Gyda'n gilydd, gallwn gryfhau ymhellach weithrediad y trefniadau cydredol ar gyfer cystadleuaeth a datblygu dulliau gweithredu newydd ar gyfer ein pwerau cyfraith defnyddwyr a rennir o dan y drefn ddiwygiedig. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn y flwyddyn i ddod, lle bydd y DMCCA hefyd yn cryfhau gallu rheoleiddwyr y sector i gyflawni eu cyfrifoldeb i hyrwyddo diogelwch defnyddwyr yn eu sectorau, gan gynnwys drwy eu galluogi i wneud cais i'r llys i roi cosbau.

Yn fwy cyffredinol, pan fydd y llywodraeth yn ystyried diwygiadau ehangach i reoleiddio'r sector (er enghraifft, yr Adolygiad Cunliffe parhaus o'r sector dŵr a'i reoleiddio), mae'r CMA yn barod i ddarparu cyngor a chymorth, gan gynnwys ar newidiadau tymor hwy posibl i'r system apeliadau rheoleiddio a'n rôl ynddi. Rheoleiddio digidol

Mae cynllunio a gweithredu rheoleiddio digidol i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd unigryw'r ecosystem gymhleth, draws-economi hon yn gofyn am ddull cydlynol a chydweithredol. Dyma ddiben craidd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF), y mae'r CMA yn aelod sylfaenol ohono, ochr yn ochr â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom.

Mae eglurder a chydlyniad rheoleiddio digidol, yn ogystal â mynediad syml at gyngor a chymorth rheoleiddio, yn allweddol i feithrin hyder, arloesedd a thwf busnesau yn sector technoleg y DU. Gan weithio drwy'r DRCF, mae'r CMA a'r rheoleiddwyr eraill wedi gallu cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hyn. Dros y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft, rydym wedi cydweithio ar ymchwil ar y cyd a chyhoeddiadau'r DRCF, megis ar fabwysiadu gan y diwydiant ac awydd defnyddwyr i ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol; dyfodol y farchnad archwilio algorithmig trydydd parti; a mewnwelediadau a chyfleoedd i'r diwydiant a rheoleiddwyr mewn perthynas â thechnolegau datblygol fel ID digidol a chyfryngau synthetig.

Rydym hefyd wedi treialu AI a Hyb Digidol i helpu arloeswyr technoleg yn y DU i ddod â chynnyrch a gwasanaethau newydd i'r farchnad yn gyflym. Roedd y gwasanaeth un stop hwn yn cynnig cyngor arbenigol ac anffurfiol, drwy wefan DRCF, i arloeswyr sydd â chwestiynau cymhleth, traws-reoleiddiol. Mae'r cynllun peilot yn cael ei werthuso ar hyn o bryd cyn i DRCF gadarnhau'r camau nesaf.

Bydd y CMA yn parhau i hyrwyddo amcanion cenhadaeth y Fforwm yn y flwyddyn i ddod, gan gynnwys ysgwyddo rôl Cadeirydd Cylchdro'r Fforwm o amgylch y thema 'arloesi'. Ochr yn ochr â'n partneriaid yn y Fforwm, byddwn yn parhau i ymdrechu i sicrhau cydlyniant a chydweithredu rheoleiddiol, gan sicrhau bod defnyddwyr a busnesau yn y DU yn cael y budd mwyaf o arloesi a thwf mewn marchnadoedd digidol Bydd rhagor o fanylion am ffrydiau gwaith y Fforwm ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael eu cyhoeddi yn ei gynllun gwaith sydd ar y gweill ar gyfer 2025/26.

## Cydweithredu rhyngwladol

Mewn byd o farchnadoedd rhyng-gysylltiedig, sy’n fwyfwy ddi-ffiniau, ac ansicrwydd ynghylch deinameg masnach newidiol, mae’r CMA yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio â phartneriaid rhyngwladol ar faterion sy’n ymwneud â chystadleuaeth a diogelu defnyddwyr.

Mae ein gallu i ddarparu gwerth i ddefnyddwyr a busnesau yn y DU yn cael ei wella gan gydweithrediad rhyngwladol effeithiol lle mae gan farchnadoedd ddeinameg ar draws gwledydd neu’n fyd-eang; neu lle mae ymddygiad gwrth-gystadleuol neu drin defnyddwyr yn annheg yn ymestyn ar draws ffiniau. I fusnesau sy’n llywio fframweithiau rhyngwladol cymhleth, gall y cydweithrediad hwn roi mwy o sicrwydd, eglurder a hwylustod prosesau.

Gan adlewyrchu pwysigrwydd cydweithredu rhyngwladol, mae’r CMA yn ceisio manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd a ddaw yn sgil cyfranogiad gweithredol mewn rhwydweithiau rhyngwladol mawr, fel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), Rhwydwaith Rhyngwladol Diogelu a Gorfodaeth Defnyddwyr (ICPEN), y G7, Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Fasnach a Datblygiad (UNCTAD) a’r Rhwydwaith Cystadleuaeth Rhyngwladol (ICN).

Mae’r CMA hefyd yn cefnogi’r llywodraeth i negodi cydweithrediad a chytundebau masnach, mewn perthynas ag adrannau sy’n berthnasol i bolisi cystadleuaeth a  defnyddwyr. Ym mis Hydref 2024, daeth y DU a’r UE â’r trafodaethau ar Gytundeb Cydweithredu ar Gystadleuaeth rhwng y DU a’r UE i ben yn ffurfiol. Oni bai y cyfyd amgylchiadau annisgwyl, disgwylir i’r cytundeb arfaethedig ddod i rym yn 2025.

Bydd y CMA yn parhau i ymgysylltu’n agos mewn deialog rhyngwladol eleni. Yn benodol, rydym yn edrych ymlaen at gynnal Cynhadledd Flynyddol ICN yng Nghaeredin ym mis Mai 2025, ochr yn ochr â chyfarfod o Fforwm Technolegwyr ICN. Byddwn yn defnyddio’r digwyddiadau hyn i rannu a deall y datblygiadau diweddaraf mewn cyfraith cystadleuaeth yn fyd-eang, gan ganolbwyntio’n benodol ar rôl cystadleuaeth o ran sbarduno twf a datgloi arloesedd ym maes technoleg

E03325495

978-1-5286-5570-5